**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

10 Chwefror 2014

Annwyl Gyfaill,

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal **ymchwiliad byr i wasanaethau orthodontig yng Nghymru**.

Y cylch gorchwyl yw ymchwilio i'r gofal orthodontig priodol a ddarperir yng Nghymru, gan gynnwys:

- Yr hawl i driniaeth orthodontig briodol, sy'n cynnwys gwasanaethau gofal orthodontig sylfaenol ac eilaidd ar gyfer cleifion, ac a oes amrywiad rhanbarthol yn bod o ran hawl i wasanaethau orthodontig drwy Gymru.
- Effeithiolrwydd y cyswllt gweithiol rhwng practisau orthodontig a byrddau iechyd lleol o ran rheoli'r ddarpariaeth orthodontig yn lleol, a rôl y Rhwydweithiau Clinigol a Reolir wrth gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau orthodontig mwy effeithiol yng Nghymru (e.e cynllunio a rheoli effeithiol, gwelliant o ran pa mor briodol yw atgyfeiriadau a rheoli perfformiad, trefniadau'r gweithlu).
- A yw'r arian a ddarperir ar gyfer y gwasanaethau orthodontig ar hyn o bryd yn gynaliadwy o gofio'r wasgfa ar wariant y mae'r GIG yn ei hwynebu, gan gynnwys, a yw'r ddarpariaeth gofal othodontig bresennol yn ddigonol, yn fforddiadwy ac yn darparu gwerth am arian ai peidio.

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

- A yw gwasanaethau orthodontig yn cael blaenoriaeth ddigonol yng nghynllun iechyd y geg cenedlaethol ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys trefniadau ar gyfer monitro safonau'r ddarpariaeth a chanlyniadau'r gofal yn y GIG ac yn y sector annibynnol.
- Effaith y contract deintyddol ar y gofal orthodontig a ddarperir.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno yn ysgrifenedig oherwydd ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein gwefan, er mwyn iddi ddod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fydd hynny'n berthnasol, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i **Pwyllgor.IGC@cymru.gov.uk.**

Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **dydd Gwener 4 Ebrill 2014.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi'ch sylwadau, cofiwch:

- ddefnyddio dim mwy na phum ochr A4;
- defnyddio paragraffau wedi'u rhifo;
- (os byddwch yn eu hanfon yn electronig) byddai'n well defnyddio dogfennau Word, yn hytrach na ffeiliau pdf; a
- chanolbwyntio ar y cylch gorchwyl a amlinellwyd uchod.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr ddosbarthu atodedig anfon sylwadau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar petaech yn gallu anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau. Byddwn yn cynnal dwy sesiwn o dystiolaeth lafar ym mis Mai a mis Mehefin 2014.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir



**David Rees AC**
**Cadeirydd**

**Atodiad: Rhestr ddosbarthu**

Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd Aberystwyth

Grŵp Gofal Iechyd y Geg/Diddordeb Arbennig Cymru Gyfan

Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd Bangor

Cymdeithas Nyrsys Deintyddol Prydain

Cymdeithas Therapyddion Deintyddol Prydain

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain

Cymdeithas Ddeintyddol Prydain

Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru

Sefydliad Iechyd Deintyddol Prydain

British Dental Practice Managers Association

Cymdeithas Rheolwyr Practisau Deintyddol Prydain

Cymdeithas Ddeieteteg Prydain

Cymdeithas Feddygol Prydain

British Orthodontic Society

Cymdeithas Orthodontig Prydain

Cymdeithas Anabledd ac Iechyd y Geg Prydain

Cymdeithas Radioleg Deintyddol a'r Genau a'r Wyneb Prydain

Cymdeithas Deintyddiaeth Bediatreg Prydain

Adran Deintyddiaeth Ôl-Radd Prifysgol Caerdydd

Ysgol Ddeintyddiaeth Prifysgol Caerdydd

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Cyngor Gofal Cymru

Castle Hill Orthodontics

Canolfan Ddeintyddiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

Prif Swyddog Deintyddol Cymru

Comisiynydd Plant Cymru

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol

Pwyllgor Cyfarwyddwyr a Deonau Deintyddol Ôl-Radd

Cynghorau Sir

Dental Defence Union

Cynllun Gwên - Caerdydd

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Ffederasiwn Cymdeithasau Arbenigol Orthodontig Ewrop

Cyfadran Llawfeddygaeth Ddeintyddol
Cyfadran Gwaith Deintyddol Cyffredinol (Gogledd Cymru)
Cyfadran Gwaith Deintyddol Cyffredinol (De Cymru)
Mentrau Dechrau'n Deg
Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
General Dental Council
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd Hwlffordd
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Darparwyr gofal iechyd:
Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd Llandochau
Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd Llandrindod
Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd Merthyr Tudful
Y Bwrdd Arholi Cenedlaethol ar gyfer Nyrsys Deintyddol
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol
Y Grŵp Hybu Iechyd y Geg Cenedlaethol
Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd y Drenewydd
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Y Grŵp Orthodontig Cenedlaethol
Cymdeithas y Cleifion
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd y Rhyl
Y Gymdeithas Ddatblygu Anesthesia mewn Deintyddiaeth
Rhwydwaith Clinigol a Reolir ar gyfer Orthodonteg De Ddwyrain Cymru
Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd Abertawe
Cymdeithas Orthodontig Dafodol Prydain;
Cymdeithas Anabledd ac Iechyd y Geg Prydain
Cymdeithas Hylendid a Therapi Deintyddol Prydain
Cymdeithas Ddeintyddiaeth Bediatreg Prydain
Y Grŵp Orthodontig Cenedlaethol (Nyrsys Deintyddol)
Y Ganolfan Feddygol a Deintyddol Ôl-Radd
Conffederasiwn GIG Cymru
Grŵp Meddygon Ymgynghorol Orthodontig Cymru
Pwyllgor Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol Cymru
Canolfan Deintyddiaeth Ôl-Radd Wrecsam